

Grant Cyfalaf ar Raddfa Fach:

Partner Arweiniol	Enw'r Prosiect	Crynodeb o'r Prosiect	Cyfanswm ar gyfer y prosiect gan LIC	Cyfanswm yr arian cyfatebol
Cyngor Sir Ceredigion	Llwybr cerdded mynediad hawdd Afon Teifi a mynediad i gadeiriau olwyn yng Nghenarth	Gwella mynediad i 650 o fetrau o lwybr troed ar lan yr afon o ganolfan dwristiaeth boblogaidd Cenarth yn Nyffryn Teifi drwy osod llwybr o blastig wedi ei ailgylchu mewn manau ar hyd y llwybr.	£124,000	£31,000
Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru	Seilwaith Gwyrdd a Mynediad Lleol i Gorsydd Teifi	Creu seilwaith newydd o lwybr pren hir oes 600m o hyd yng Ngwarchodfa Natur Corsydd Teifi yng ngogledd Sir Benfro a de Ceredigion.	£77,328	£19,332
Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn	Y Ddôl Fawr, Parc yr Esgob, Abergwili	Mynediad cyhoeddus newydd, ychwanegol a gwell i Barc yr Esgob a'r Ddôl Fawr, Abergwili, ynghyd â gwell rheolaeth ar ei 9 erw o gynefin dôl gorlifdir Dyffryn Tywi.	£100,156	£25,039
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Datblygiad Tracks and Trails Rhondda Cynon Taf	Datblygu llwybrau cerdded a beicio ar draws Rhondda Fawr a Fach a Chwm Cynon drwy gydweithio â mentrau cymunedol megis Croeso i'n Coedwig (Treorci) a sefydliadau allweddol eraill.	£128,000	£32,000
Prifysgol Caerdydd	Pafiliwn Gerddi'r Faenor	Ailddatblygu'r tir o amgylch y pafiliwn bowlio sy'n dyddio o 1962 yng Ngerddi'r Faenor, Grangetown, i greu gofod allanol bioamrywiol, amgylcheddol gyfoethog a chynaliadwy i'w ddefnyddio a'i fwynhau gan y gymuned ac sy'n cael ei gynnal a'i gadw gan y gymuned.	£128,000	£27,042
Cyfanswm (5)			£557,484	£134,413

Grant Refeniw ar Raddfa Fach:

Partner Arweiniol	Enw'r Prosiect	Crynodeb o'r Prosiect	Cyfanswm ar gyfer y prosiect gan LIC	Cyfanswm yr arian cyfatebol
Buglife Cymru	Buglife Cymru - Peillwyr a dŵr croyw	Defnyddir y grant i ddatblygu prosiectau a phartneriaethau newydd er mwyn gwireddu ein dwy thema strategol yng Nghymru: <ol style="list-style-type: none"> 1. Peillwyr - datblygu partneriaethau gweithredu newydd ar gyfer B-Lines, a chefnogi gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr yng Nghymru. 2. Dŵr croyw - gwella ansawdd ein dŵr croyw, er mwyn gwarchod infertebratau dŵr croyw yng Nghymru a gwella ymgysylltiad y cyhoedd ag infertebratau dŵr croyw a'u hanghenion cadwraeth. 	£31,702	£9,800
Plantlife	Back from the Brink Cymru	Bydd Back from the Brink yn sefydlu ac yn datblygu prosiect partneriaeth i adfer gwahanol rywogaethau sydd o dan fygythiad, drwy gynlluniau rheoli tir integredig, mewn tirweddau strategol ledled Cymru.	£39,764	£22,421
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Parciau i Bawb / Parks for All	Bydd y prosiect hwn yn dod â chymunedau lleol, y trydydd sector a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghyd er mwyn edrych ar sut y gall eu parciau chwarae fod yn hygyrch i bawb, cyfrannu at safonau amgylcheddol da yn lleol a datblygu naws am le a chymunedau y gall preswylwyr fod yn falch ohonynt.	£40,000	0
Ymddiriedolaeth Natur Gwent	The British: Cynllun Mentora Troseddau Tirwedd	Bydd y cynllun hwn yn hyrwyddo manteision The British ar gyfer bywyd gwyllt a lles y gymuned drwy raglen o weithgareddau a ddatblygwyd ar y cyd â'r corff newydd Friends of the British. Rhagwelir y bydd mwy o ddehongli o'r dirwedd ar y safle yn galluogi gwirfoddolwyr o'r gymuned i werthfawrogi a hyrwyddo adnoddau naturiol y safle a rhwystro troseddau tirwedd.	£39,508	0

Cyngor Sir Powys	Don't Dump it, Donate it! Gweithio i sicrhau Powys ddi-dipio	Ein nod, mewn cydweithrediad agos â'n prif bartneriaid prosiect, menter gymdeithasol leol Phoenix Furniture Scheme yn y Drenewydd a Chanolfan Wirfoddolwyr Ystradgynlais, yw gwella ansawdd yr amgylchedd yn lleol a darparu manteision mewn sawl maes gan gynnwys creu swyddi, mentro yn lleol, allgáu cymdeithasol, tlodi a newid hinsawdd.	£40,000	£40,000
Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru	Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru	Bydd ein prosiect yn creu fframwaith ar gyfer cydweithredu a fydd yn hyrwyddo bioamrywiaeth ac yn gwella cadernid yr ecosystem drwy ddatblygu dull effeithiol a chynaliadwy, ar lefel Cymru gyfan, o reoli rhywogaethau estron goresgynnol mewn modd strategol a chydgyssylltiedig, ac sydd wedi ei flaenoriaethu.	£39,996	0
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Prosiect Datblygiad "Argoel Bywydol" / "Vital Signs" Development Project	Bydd y rhaglen hon yn cynnwys prosiectau a ddarperir gan gadwriaethwyr proffesiynol ac arbenigwyr ar y cyd â gwirfoddolwyr a dinasyddion fel gwyddonwyr. Bydd y prosiectau hyn yn gwella gallu cymunedau i ddylanwadu ac adfer byd natur yn uniongyrchol drwy brosiectau a gweithgareddau sy'n seiliedig ar leoedd.	£29,120	£22,520
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Ystad Ddiwydiannol Hirwaun - Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le	Prosiect cydweithredol fydd hwn er mwyn datblygu gwell perthynas â rhanddeiliaid i greu atebion ac argymhellion amgylcheddol ymarferol ar y cyd ar ffurf Uwchgynllun Amgylcheddol Strategol, gan weithredu fel catalydd i wireddu'r amcanion ar gyfer y safle, o ran yr amgylchedd a llesiant.	£40,000	0
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Gwlad y Sgydau – Datblygiad Partneriaeth	Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dymuno datblygu Partneriaeth a fydd yn cynllunio, yn trefnu ac yn rhoi ar waith fuddsoddiadau a fydd yn galluogi pobl i fwynhau'r cyfleoedd hamdden a thwristiaeth rhagorol, ond heb niweidio'r cynefinoedd bywyd gwyllt sydd o bwys rhyngwladol.	£40,000	£5,000
Gwarchod Gloynnod Byw Cymru	Gweithio gyda'n gilydd i greu rhostir pori cryf Cymru	Datblygu cysylltiadau newydd rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector (gan ymestyn ar draws maes glo'r de o Gaerffili yn y dwyrain i Sir Gaerfyrddin yn y gorllewin) er mwyn rheoli'r cynefinoedd cyfoethog hyn yn fwy effeithiol yn ogystal â helpu i wella llesiant cymunedau lleol drwy wella eu gwerthfawrogiad o'r bywyd gwyllt amrywiol sydd o'u cwrpas.	£22,633.96	£11,155

Cyngor Bro Morgannwg	Llwybrau Gwyrdd - Rhwydwaith Llwybrau Ceffylau a Beiciau	Cynllun i ddarparu llwybr ceffylau a beiciau mynydd pellter maith sy'n cysylltu canolfannau mynediad i lwybrau ceffylau ar draws ardal y rhaglen. Bydd y prosiect yn creu cysylltiadau rhwng grwpiau lleol, grwpiau defnyddwyr a grwpiau cadwraeth natur er mwyn darparu a datblygu llwybrau fel coridorau bywyd gwyllt.	£39,997	0
Ecodyfi	Rhwydwaith Iechyd Awyr Agored Biosffer Dyfi	Nod y prosiect yw creu rhwydwaith cydweithredol o ymarferwyr iechyd, yr amgylchedd a thwristiaeth yn ardal Biosffer Dyfi, a fydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol ac yn treialu gweithgareddau awyr agored sy'n seiliedig ar natur; gan ddod â chyfleoedd iechyd a lles i bobl a gwella'r amgylchedd lleol ar yr un pryd.	£39,955.83	0
Cyngor Sir Ynys Môn	Cynllun Gweithredu Gogledd Ynys Môn	Mae dull partneriaeth newydd yn angenrheidiol er mwyn datblygu cynllun gweithredu a strategaeth gyfannol i ymdrin â nifer o heriau y mae Gogledd Ynys Môn yn eu hwynebu, yn amgylcheddol ac o ran llesiant. Cam cyntaf y rhaglen fydd creu'r bartneriaeth, llunio'r strategaeth a'r cynllun gweithredu a pharatoi ceisiadau ar gyfer cyllid er mwyn rhoi'r cynllun ar waith.	£37,921	0
Dŵr Cymru	Dalgylch Mega Bannau Brycheiniog	Mae cysyniad Dalgylch Mega Bannau Brycheiniog yn cydnabod maint cyfraniad Bannau Brycheiniog i Gymru ar raddfa tirwedd. Mae'n annog rhanddeiliaid i gydweithio i greu gweledigaeth ar y cyd er mwyn darparu'r canlyniadau gorau posibl i bawb sy'n byw neu'n gweithio ym Mannau Brycheiniog, neu'n cael budd ohonynt.	£40,000	£20,000
Smallwoods Association	Iechyd a Mynediad Gwyrdd Gorllewin Cymru	Mae'r prosiect peilot blwyddyn o hyd hwn yn dod â phartneriaid o Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion at ei gilydd. Amcanion y prosiect yw ymchwilio i'r ddarpariaeth mannau gwyrdd presennol ar gyfer cymunedau lleol, cefnogi darparwyr mentrau iechyd gwyrdd er mwyn hybu'r arferion gorau a gweithio'n uniongyrchol â'r sector iechyd, codi proffil presgripsiynu cymdeithasol i 'ofal iechyd seiliedig ar natur' a chreu partneriaethau cadarn rhwng y sector gofal iechyd a sector yr amgylchedd.	£39,996	0
Cyfanswm (15)			£560,594	£130,896

